Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llaingoch
# Ysgol Llaingoch
# Caergybi
# LL65 1LD

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llaingoch yn cyfarfod yn Ysgol Llaingoch ar gyrion Caergybi, Ynys Môn.  Mae’r lleoliad yn cyfarfod bum prynhawn yr wythnos ac yn cyflogi tri ymarferwr amser llawn ac un ymarferwr rhan-amser, bob un ohonynt yn gymwys a phrofiadol iawn yn gweithio gyda phlant ifanc.  Mae arweinydd y lleoliad wedi bod yn ei swydd er Ebrill 2000.

Mae’r lleoliad wedi cofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant rhwng dwy a hanner a phedair oed ym mhob sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 25 o blant ar y gofrestr, 14 ohonynt yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.  Saesneg yw iaith y cartref i bron pob un o’r plant ac mae ychydig bach o blant yn siarad Cymraeg gartref.  Nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad ar adeg yr arolygiad.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mawrth 2014 a chan Estyn ym Mawrth 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae llawer o blant yn cyflawni safonau realistig yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu
- Mae bron pob un o'r plant yn ymgartrefu'n gyflym ac maent yn hapus yn y lleoliad
- Mae ymddygiad plant yn dda a dilynant gyfarwyddiadau'n dda
- Mae'n cynnig ystod eang o brofiadau dysgu buddiol yn seiliedig ar themâu priodol
- Caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am gadw'n iach
- Mae ethos cynnes a chroesawgar
- Mae'n gwneud defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i ymestyn a chyfoethogi dysgu plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn rheoli'r gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd yn effeithiol
- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm
- Mae'r arweinydd yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor ac arweiniad, sy'n cael effaith fuddiol ar ddeilliannau a lles plant
- Mae ganddo gynllun gwella priodol ar waith ac mae'n gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei dargedau
- Mae partneriaethau defnyddiol yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at waith y lleoliad
- Gwna ymarferwyr ddefnydd da o gyfleoedd hyfforddi i wella'u harfer

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau creadigol a medrau ysgrifennu cynnar plant

A2 Gwella cynllunio i ymestyn medrau plant, yn enwedig eu medrau siarad, yn fwy systematig

A3 Gwella medrau Cymraeg ymarferwyr

A4 Sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn bodloni gofynion a bod gan bob ymarferwr ddealltwriaeth gadarn o beth i'w wneud

A5 Sefydlu systemau effeithiol i gryfhau'r rheolaeth strategol ar y lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd realistig yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau parhaus ac mae ganddynt gryn ddiddordeb a symbyliad i ddysgu.

Mae medrau llythrennedd a chyfathrebu'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda o'u man cychwyn isel fel dysgwyr Cymraeg. Datblygant ddealltwriaeth ddefnyddiol o eiriau, ymadroddion a chyfarwyddiadau Cymraeg yn gyflym, gan eu galluogi i ymuno'n llawn â bywyd y cylch chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio geiriau a chaneuon a glywant yn aml yn naturiol ac yn ddigymell yn eu chwarae, fel canu am Lola Lindys, enwi rhifau a chwilio am y 'pili-pala'. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno â chaneuon a rhigymau gyda brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda, gan ddangos dealltwriaeth drylwyr o'r iaith a ddefnyddir, er enghraifft pan ofynnir iddynt sefyll mewn cylch a chymryd eu tro yn y neuadd. Mae llawer o blant yn defnyddio amrywiaeth o offer gwneud marciau gyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth dynnu lluniau ar y byrddau sialc tu allan ac wrth ddefnyddio llechi. Fodd bynnag, nid yw plant mwy abl yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn ddigonol. Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar storïau ac ymatebant yn frwdfrydig i stori am y bwystfilod bach yn yr ardd. Gwyddant sut i drin llyfrau yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau rhifedd yn effeithiol. Maent yn gallu paru gwrthrychau yn ôl siâp a lliw yn llwyddiannus. Gall bron pob un ohonynt gyfrif i ddeg o leiaf ac ymuno â dysgu rhigymau rhif yn frwdfrydig. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o iaith fathemategol, er enghraifft wrth chwarae gyda'r parasiwt. Mae llawer o blant yn deall sut i gymharu gwrthrychau yn ôl maint a siâp, er enghraifft pan fyddant yn dod o hyd i'r pry cop mwyaf yn y glaswellt.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn neidio'n llwyddiannus, yn taflu bagiau ffa gyda rheolaeth gynyddol ac yn defnyddio'u medrau echddygol manwl i weithio'r chwistrelli dŵr yn fedrus. Er bod llawer o'r plant yn mwynhau paentio a gweithgareddau crefft, mae eu medrau creadigol wedi'u tanddatblygu.

**Lles: Da**

Daw bron pob un o'r plant i'r sesiwn yn hapus ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda brwdfrydedd a mwynhad, er enghraifft dyfalu beth sydd yn het Doti. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos chwilfrydedd ynghylch yr adnoddau a gynigir iddynt a gwnânt ddefnydd da o'r rhain i ymestyn eu dysgu. Mae llawer ohonynt yn parhau i ganolbwyntio am gyfnod sylweddol, yn eu chwarae annibynnol ac wrth weithio ochr yn ochr ag oedolion.

Mae ymddygiad plant yn dda at ei gilydd.  Ymatebant yn dda i gyfarwyddyd oedolion ac mae eu gallu i rannu a chymryd eu tro yn datblygu'n dda.  Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd eu tro i neidio ar hyd rhes o gylchoedd yn llwyddiannus, gan alluogi pawb i wneud y mwyaf o'r gweithgaredd.  Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus ac mae eu medrau dysgu annibynnol yn datblygu'n dda, er enghraifft pan fyddant yn diosg ac yn gwisgo'u hesgidiau a'u hosanau eu hunain er mwyn cymryd rhan mewn sesiwn yn y neuadd.  Mae llawer o blant yn dechrau datblygu ymdeimlad priodol o gyfrifoldeb, er enghraifft pan fyddant yn helpu i dacluso a chymryd eu tro fel Helpwr Heddiw.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn rhoi amrywiaeth eang o brofiadau dysgu gwerthfawr i'r plant yn seiliedig ar themâu priodol.  Maent yn cynllunio ystod addas o weithgareddau difyr sy'n cwmpasu holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn dda.

Caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut i drin pethau byw gyda gofal, parch a phryder trwy drefnu bod anifeiliaid gwahanol yn ymweld â'r grŵp, fel cwningen, ci defaid a cheffyl.  Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau crefft sydd wedi'u cysylltu'n briodol â'u themâu, er bod tuedd i ddibynnu'n ormodol ar dempledi.  O ganlyniad, mae cyfleoedd plant i fynegi eu hunain yn greadigol yn gyfyngedig.  Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau meddwl, er enghraifft meddwl pam mae iâ yn toddi fel rhan o thema'r gaeaf.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn dda iawn i helpu plant i ddatblygu eu dealltwriaeth.  Er enghraifft, mae plant yn ymweld â'r siop leol i brynu ffrwythau a llysiau pan fyddant yn dysgu am fwyta'n iach.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau cyfathrebu a llythrennedd plant.  Mae ymarferwyr yn defnyddio trefn a chaneuon a rhigymau mewn ffordd werthfawr i helpu plant i ddatblygu eu medrau Cymraeg.  O ganlyniad, mae plant sy'n dysgu Cymraeg yn gwneud cynnydd da.  Mae cyfleoedd defnyddiol dan do a thu allan i blant ddatblygu eu medrau gwneud marciau.  Fodd bynnag, nid yw cynllunio systematig i ymestyn medrau ysgrifennu cynnar a medrau Cymraeg plant mwy abl wedi'i ddatblygu cystal.  Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o lyfrau deniadol a diddorol sy'n aml yn gysylltiedig â'r thema gyfredol, sy'n hybu medrau darllen cynnar yn dda.

Mae'r lleoliad yn datblygu medrau rhifedd plant yn effeithiol, er enghraifft trwy gynnig cyfleoedd da i blant gyfrif gan ddefnyddio rhigymau a chaneuon, a didoli a pharu gwrthrychau yn eu chwarae.  Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am eu treftadaeth genedlaethol, er enghraifft pan fyddant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn dysgu am Santes Dwynwen.

## Addysgu: Digonol

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, maent yn darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan y plentyn a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr oedolyn. Mae cyflymder da i'r sesiynau ac mae hyn yn cynnal symbyliad plant a'u diddordeb yn eu dysgu. Mae ymarferwyr wedi datblygu arferion sefydledig, y maent yn eu dilyn yn gyson. Mae hyn yn helpu plant i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn y lleoliad ac mae'n cefnogi dealltwriaeth ddatblygol plant o ymadroddion Cymraeg yn dda. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn hyderus nac yn gyson o gwbl yn eu defnydd ar y Gymraeg ac, weithiau, maent yn defnyddio patrymau ac ynganiad anghywir. O ganlyniad, nid yw plant yn cael cyfleoedd digon cyson i ymestyn eu geirfa a'u medrau siarad Cymraeg cystal ag y gallant.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn llwyddiannus ac yn ymyrryd yn sensitif i gefnogi eu hanghenion unigol. Gweithiant yn dda fel tîm, gan rannu cyfrifoldebau yn effeithiol a'u cefnogi ei gilydd i sicrhau bod gweithgareddau'n mynd yn eu blaen yn hwylus. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol a gyda digrifiwch ac, o ganlyniad, mae'r plant yn cael hwyl yn y lleoliad wrth ddysgu.

Mae ymarferwyr yn cymryd cyfrifoldeb am grwpiau o blant unigol ac yn cofnodi arsylwadau ynghylch eu cynnydd yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu ymarferwyr i nodi pa fedrau y mae angen i blant weithio arnynt. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y system hon, ac nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn systematig yn eu cynllunio eto. Weithiau, nid yw disgwyliadau ymarferwyr ynghylch yr hyn y gall plant ei wneud yn ddigon uchel ac, o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd eu plant yn effeithiol trwy gyfarfodydd anffurfiol a llyfr 'cofnod o gyflawniad' cynhwysfawr.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r lleoliad yn hybu byw'n iach yn effeithiol. Mae plant yn cael llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am gadw'n iach, trwy hylendid da, bwyta'n dda a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta, yn brwsio'u dannedd bob dydd ac yn mwynhau byrbrydau iach.

Mae'r lleoliad yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu rhannu a chymryd eu tro. Maent yn helpu plant i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb trwy eu hannog nhw i wisgo'u cotiau eu hunain a helpu i roi adnoddau o'r neilltu adeg tacluso. Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu ymdeimlad o syndod a rhyfeddod trwy dyfu perlysiau a blodau haul, ac maent yn mwynhau'r ymweliadau niferus gan wahanol anifeiliaid â'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn dechrau addysgu plant am ddatblygu cynaliadwy yn briodol trwy ddarparu cyfleoedd i ailgylchu bwyd, papur a chardfwrdd gwastraff.

Mae systemau addas ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ceisio cymorth gan wasanaethau'r awdurdod lleol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol i wirio addasrwydd staff ac eraill sy'n dod i gysylltiad â phlant. Mae systemau effeithiol ar gyfer sicrhau diogelwch a lles plant tra byddant yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chroesawgar yn y lleoliad. Mae'n gymuned gynhwysol ac mae'r holl blant yn gallu manteisio'n gyfartal ar adnoddau a gweithgareddau. Mae gweithgareddau addas, fel blasu bwydydd o wahanol wledydd, yn cyfrannu at bwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth.

Mae ymarferwyr yn trin plant yn deg, er enghraifft wrth eu hannog i gymryd eu tro. Dangosant barch tuag at syniadau ac awgrymiadau plant, gan helpu i hybu agweddau goddefgar. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a chadw'n dda ac mae'n ddiogel. Mae digon o adnoddau o ansawdd da, sy'n bodloni anghenion plant at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r hambyrddau tywod a dŵr yn fach, gan gyfyngu ar gyfleoedd y plant i ddysgu am gynhwysedd, pwysau a mesur.

Trefnir yr ardal dan do yn ardaloedd dynodedig yn dda a gall plant fynd at yr adnoddau'n hawdd ac yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o neuadd yr ysgol i ddarparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu medrau corfforol. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi ymestyn ei ddefnydd ar yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn dechrau cynllunio'n briodol ar gyfer mwy o brofiadau dysgu tu allan a gwnânt ddefnydd addas o'r ardal sydd ar gael i roi cyfleoedd rheolaidd i blant elwa o awyr iach ac ymarfer corff.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd da mewn amgylchedd hapus, gan roi dechrau da i blant i'w haddysg. Mae'n sicrhau bod trefn bob dydd y lleoliad yn mynd yn ei blaen yn effeithlon ac yn gyson, gan ddefnyddio arbenigedd ymarferwyr yn briodol i ddarparu profiadau dysgu buddiol i'r plant. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm, gan eu cefnogi ei gilydd yn effeithiol. O ganlyniad, mae staff a phlant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae cadeirydd newydd y pwyllgor rheoli a sefydlwyd yn ddiweddar yn gweithio'n dda gydag arweinydd y lleoliad. Maent yn rhannu ymrwymiad cyffredin i lwyddiant y lleoliad. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at welliannau fel sicrhau'r defnydd rheolaidd ar neuadd yr ysgol i ddatblygu medrau corfforol plant. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor wedi rhannu unrhyw rai o'r cyfrifoldebau ar gyfer rheolaeth strategol y lleoliad eto. Mae'r agwedd hon ar waith y lleoliad wedi'i thanddatblygu. Er bod yr arweinydd yn gwneud yn siŵr bod y rhan fwyaf o bolisïau priodol ar waith, mae angen diweddaru llawer ohonynt i gefnogi gwaith y lleoliad yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau defnyddiol yn anffurfiol at

gynllunio o ddydd i ddydd.  Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfraniad a wneir ganddynt at gynllunio strategol neu arfarnu'r ffordd ymlaen yn ffurfiol.

Mae arweinydd y lleoliad yn talu sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel byw'n iach, ac mae'n gwneud yn siŵr bod ffocws cadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu yn datblygu'n effeithiol yn y lleoliad.  Mae arweinydd y lleoliad yn gwneud defnydd da o broses hunanarfarnu newydd i helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus.  Mae'n ymgynghori ag ymarferwyr trwy drafodaethau anffurfiol ac mae rhieni'n cyfrannu eu barn trwy holiadur blynyddol.  Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio.

Mae'r arweinydd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lunio cynllun gwella defnyddiol sy'n nodi blaenoriaethau defnyddiol.  Mae'r lleoliad yn gwneud cynnydd addas tuag at gyflawni'r targedau a osodwyd, fel sicrhau bod plant yn cael gwell cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.  Mae ymarferwyr yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y lleoliad ac maent wedi cymryd camau gwerth chweil tuag at gyflawni hyn.  Er enghraifft, mae eu defnydd cyson ar ganeuon a rhigymau Cymraeg wedi sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill, gan ymateb yn gadarnhaol i gyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin i wneud gwelliannau.  Er enghraifft, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o adnoddau a ddatblygwyd gan Mudiad Meithrin i gefnogi medrau Cymraeg datblygol plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu partneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n dda at safonau a lles plant.

Mae'r partneriaethau â rhieni yn gryf.  Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy gysylltiad anffurfiol dyddiol a chylchlythyron defnyddiol sy'n amlinellu themâu'r lleoliad.  Mae ymarferwyr yn gwahodd rhieni i gymryd rhan trwy gyfrannu eitemau o ddiddordeb.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les plant a'u diddordeb yn y themâu.  Mae rhieni'n gwerthfawrogi bod ymarferwyr yn agos-atynt a bod eu plant yn hapus ac yn awyddus i fynychu.  Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ethos cadarnhaol y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod yn adeilad yr ysgol ac yn elwa o ddefnyddio neuadd yr ysgol a maes chwarae'r dosbarth meithrin.  Mae plant yn ymgyfarwyddo ag adeiladau'r ysgol a'i staff yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.  Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o'u harsylwadau a'u hasesiadau gydag athro'r dosbarth meithrin.  Mae hyn yn paratoi'r ffordd yn dda i blant symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.

Mae partneriaeth adeiladol ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu a swyddog Cymraeg Mudiad Meithrin yn cynorthwyo â gwelliant parhaus yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Gwna’r lleoliad ddefnydd effeithiol o staffio, adnoddau ac arweiniad gan asiantaethau eraill i ategu addysgu a dysgu yn briodol. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod digon o staff â chymwysterau addas gan y lleoliad i weithio gyda phlant ifanc. Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod addas o hyfforddiant defnyddiol i adeiladu ar eu medrau a’u helpu i wella’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu plant. Yn benodol, mae ymarferwyr yn cydnabod bod angen gwella’u medrau Cymraeg ac maent wedi mynd ati i fynychu hyfforddiant parhaus i weithio tuag at hyn. Mae’r lleoliad yn rhannu adnoddau’n ddefnyddiol gyda chylchoedd chwarae eraill ac yn elwa o fenthyg adnoddau ganddyn nhw hefyd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae elwa o rannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda lleoliadau eraill.

Mae arweinydd y lleoliad yn adolygu’r gyllideb yn fanwl ac mae'n dwyn gwybodaeth ynghyd mewn adroddiad blynyddol i Mudiad Meithrin. Mae’n blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad ac yn defnyddio arian yn effeithlon i sicrhau bod y grŵp yn parhau’n gynaliadwy. O ystyried y deilliannau cadarnhaol i blant, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 11 | 5<br>45% | 6<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 11 | 5<br>45% | 6<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 11 | 5<br>45% | 6<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 11 | 3<br>27% | 8<br>73% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 10 | 4<br>40% | 6<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 5<br>45% | 6<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 9 | 4<br>44% | 5<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 11 | 6<br>55% | 5<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 9 | 4<br>44% | 5<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 3<br>27% | 7<br>64% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 11 | 4<br>36% | 6<br>55% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 11 | 4<br>36% | 6<br>55% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 6<br>55% | 5<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 11 | 4<br>36% | 7<br>64% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheolaidd i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym |

| | |
|---|---|
| **Gofal Plant (PDBCGP)** | hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |